Mae Cyngor Sir Fynwy yn:-

- cyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
- cyflogwr sydd wedi ymrwymo i fod yn hyderus o ran anabledd.
- cyflogwr sydd yn gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog.
- ymwybodol o Awtistiaeth ac wedi ymrwymo i ddileu unrhyw rwystrau at gyflogaeth.
- ymrwymo i gefnogi pobl ifanc sydd yn gadael ein gofal i gael cyfleoedd newydd a phrofiad.

PROFFIL Y SWYDD

TEITL Y SWYDD: Cydlynnydd Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion (GCD)
PARHAOL

RHIF ADNABOD Y SWYDD: PRS1

GRADD: Graddfa Tâl Arweinyddiaeth L11 – L17 £61,547 - £71,195 y flwyddyn

ORIAU: 32.5 awr yr wythnos yn unol â Thâl ac Amodau Athrawon Ysgol

PATRW M GWAITH: 32.5 awr yr wythnos dydd Llun i ddydd Gwener

LLEOLIAD: Mae'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion wedi ei seilio ar ddau safle yng Nghas-gwent a'r Fenni ar hyn o bryd. Gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen i leoliad y gwasanaeth symud. Ni fyddir yn talu treuliau adleoli neu darfu os yw hyn yn digwydd.

GWIRIAD GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS):

Bydd apwyntiad i'r swydd hon wedi ei eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwr ac yn amodol ar y gwiriad DBS canlynol:

(b) Gwiriad Manwl gan Wirio'r Rhestr Gwahardd Gweithio gyda Phlant

YN ATEBOL I: Dr Morwenna Wagstaff, Pennaeth Gwasanaeth: Cynhwysiant, Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc

ASESIAD O'R GYMRAEG:

(b) Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion **Pwy ydym ni?**

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn risg i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn risg. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Ein diben:-

Mae GCD Sir Fynwy yn ddarpariaeth portffolio gyda chanolfannau yng ngogledd a de y sir, gan ddarparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n profi anawsterau emosiynol, cymdeithasol a/neu ymddygiadol, yn cynnwys y rhai nad ydynt, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, yn derbyn addysg o'r fath mewn ysgol brif ffrwd.

Diben y swydd:-

Rydym yn edrych am arweinydd cryf, ymroddedig a phrofiadol ar gyfer swydd Cydlynnydd GCD i arwain ein tîm o athrawon a staff cymorth brwdfrydig ac ymroddedig. Edrychwn am rywun a all ysbrydoli a chefnogi'r gweithlu ymroddedig tuag at ddyfodol cynaliadwy, mwy disglair o ddarpariaeth ansawdd uchel sy'n rhoi blaenoriaeth i lesiant dysgwyr a'u hymgysylltu mewn profiadau dysgu rhagorol.

D.S. Yn Sir Fynwy caiff y swydd hon ei galw yn 'Gydlynnydd GCD', mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio 'Pennaeth'. Mae hyn yn cyfeirio at rôl 'athro-mewn-gofal' fel y'i hadlewyrchir yn y rheoliadau lle mae'r 'athro mewn gofal' yn gyfrifol am drefniadaeth fewnol a rheoli'r PRU, ac am gynghori ar a gweithredu'r cynllun strategol: Canllawiau Rheoliadau Pwyllgorau Rheoli PRU, 2014.

Disgwyliadau a chanlyniadau'r swydd:-

Edrychwn am weithiwr proffesiynol sy'n ymroddedig i lunio dyfodol hirdymor y GCD a gwneud cyfraniad sylweddol i ethos cynhwysol Awdurdod Lleol Sir Fynwy. Rydym angen gweithiwr proffesiynol arweiniol sydd â gweledigaeth eang, creadigrwydd, egni a chymhelliant i reoli mewn cyfnod cyffrous o newid, i adeiladu ar ein llwyddiant a sicrhau ein bod yn ymdrechu am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn.

Cafodd GCD Sir Fynwy ei adolygu yn ddiweddar i sicrhau bod ei gyfeiriad a'i ffocws ar y dyfodol yn gydnaws ag anghenion plant/pobl ifanc, ysgolion a'u teuluoedd. Mae newidiadau sy'n adlewyrchu gwelliant i'r gwasanaeth yn y dyfodol yn cynnwys symud i adeilad newydd ei adnewyddu a gynlluniwyd i ddiwallu yn well yr anghenion sydd gan ddisgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y Sir. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a bwriedir symud yn ystod tymor hydref 2024. Bydd gan Gydlynnydd y GCD gyfle i reoli a llunio'r trosiant pwysig hwn sy'n cynrychioli rhai o'r newidiadau cyffrous sydd i ddod i'r gwasanaeth hollbwysig hwn ac ymrwymiad i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth gan yr Awdurdod Lleol.

Eich cyfrifoldebau yw:-

- Dod ag arweinyddiaeth ddeinamig a strategol a all yrru'r GCD ymlaen, drwy gymell ac ennyn brwdfrydedd pob rhanddeiliad i gyflawni eu gorau glas; creu diwylliant a gaiff ei rannu a hinsawdd cadarnhaol sy'n ymdreiddio drwy bob agwedd o uchelgeisiau a darpariaeth yr awdurdod lleol;
- Datblygu ymagweddau creadigol, ymatebol ac effeithiol ar ymgysylltu dysgwyr; cyfrannu at ddatblygu arfer ar y cyd o fewn y GCD a gwella profiad dysgu yr holl ddysgwyr bregus;
- Grymuso'r holl ddysgwyr i gymryd rhan weithgar yn eu dysgu eu hunain a datblygu cyfrifoldeb personol am wella eu cyfleoedd ar gyfer profiad addysgol, cyflogaeth a llesiant yn y dyfodol;
- Hyrwyddo anghenion dysgwyr bregus yn cynnwys rhai sy'n cyflwyno gydag ymddygiad sy'n herio;
- Cydweithio'n effeithlon gyda holl gymuned y GCD, yn ogystal â gydag ysgolion, gosodiadau ac asiantaethau eraill i ddarparu ymgwedd holistig at ofal a llesiant yr holl randdeiliaid;
- Bod yn gyfathrebydd rhagorol gyda sgiliau rhyngpersonol uwch;
- Bod yn ymarferydd blaengar, arloesol a chreadigol, sy'n gyfarwydd gyda'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf yn cynnwys y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig gydag adnabod, asesu a darpariaeth effeithlon ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a meddwl ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth;
- Defnyddio dyfnder gwybodaeth a phrofiad i ateb ysgod eang o anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion gyda ADY;
- Arddangos ymroddiad cryf i gadarnhau partneriaethau sefydledig a llwyddiannus gyda staff, disgyblion, teuluoedd, aelodau'r Pwyllgor Rheoli, asiantaethau allanol eraill a'r gymuned yn ehangach;
- Dod ag agwedd gadarnhaol a hyblyg wrth reoli newid;

- Arddangos dealltwriaeth ragorol o gyfrifoldebau yng nghyswllt diogelu, i gydymffurfio gyda pholisïau diogelu corfforaethol a disgwyliadau Cyngor Sir Fynwy a amlinellir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, gan sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu dysgwyr a staff ac y caiff prosesau eu gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel;
- Gweithio dan bwysau tra'n rheoli sefyllfaoedd a allai fod yn heriol mewn modd effeithlon;
- Cydweithio gyda'r awdurdod lleol a swyddogion yr awdurdod lleol.

Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-

- Cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.
- Cyfle cyffrous i arwain tîm staff ymroddedig, gofalgar a phrofiadol sy'n llawn cymhelliant ac yn gefnogol.
- Cyfle gwych i weithio gyda'n pobl ifanc anhygoel.
- Ymrwymiad i gwrdd ag anghenion disgyblion unigol a hyrwyddo eu cynhwysiad;
- Cyfle i weithio ar y cyd ag ystod o gydweithwyr i lunio'r agenda cynhwysiant yn y dyfodol o fewn yr ALI.
- SRhP wedi ymrwymo i wella gwasanaethau a datblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau, trwy gefnogaeth barhaus yr ALI, a gyda chysylltiadau effeithiol ag UCDAu ar draws y rhanbarth.
- Pwyllgor Rheoli cefnogol a phrofiadol.
- Cefnogaeth barhaus, wedi'i chynllunio ac ymatebol, gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Diogelu mewn Addysg a datblygiad proffesiynol cysylltiedig.
- Ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol arweinyddiaeth gyfoethog trwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a'r ALI; gan gynnwys cymorth i gyflawni CPCP.

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Ein Gwerthoedd:

Caiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad glir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwyliwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwyliwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltw'n gyda'n cymunedau.

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.

Hyblygrwydd: Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

A bydd y swydd hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn cyd-fynd â'r safonau, y gwerthoedd a'r tueddiadau a nodir yn Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol 2018. Bydd Cydlynnydd y GCD yn ceisio dangos a hyrwyddo'r gwerthoedd a'r tueddiadau trosfwaol a ddiffinnir yn Safonau Proffesiynol y canlynol:

- 1) Hawl broffesiynol
- 2) Y Gymraeg a diwylliant Cymru
- 3) Hawliau dysgwyr
- 4) Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- 5) Y dysgwr proffesiynol
- 6) Rôl y system

Mae gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â chyfrifoldebau proffesiynol Pennaeth fel a nodir yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol.

DIBEN Y SWYDD

Datblygu gweledigaeth glir i'r GCD, mewn partneriaeth â holl randdeiliaid GCD, gan ddarparu'r arweinyddiaeth broffesiynol mae ei hangen i alluogi'r staff i gefnogi dysgwyr er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn. Dylai hyn gael ei gyflawni'n unol â pholisïau'r Pwyllgor Rheoli, a'r blaenoriaethau a nodir mewn strategaethau addysg lleol a chenedlaethol.

MEYSYDD ALLWEDDOL

Addysgeg

1. Bod yn atebol am gefnogi addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben i ddysgwyr a chyflawni'r gorau iddynt o ran llesiant, safonau a chynnydd.
2. Bod yn atebol am ddatblygu strategaethau, strwythurau a systemau, gyda'r holl randdeiliaid, i sicrhau bod y GCD yn gweithio'n effeithiol tuag at wireddu gweledigaeth a rennir a chyflawni gwelliant cynaliadwy, er mwyn galluogi cyflawniad y pedwar diben dysgu, gan ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol.
3. Annog a gweithio gydag eraill i greu a chynnal ethos gwasanaeth ac amgylchedd dysgu sy'n hwyluso dysgu effeithiol.
4. Sicrhau trefniant a chyflenwi'r cwricwlwm a rhoi amrywiaeth o ymagweddau addysgeg ar waith y GCD i gefnogi addysgu a dysgu o safon uwch a chyflawni'r Cwricwlwm i Gymru.
5. Sicrhau ffocws gwasanaeth cyfan cyson a pharhaus ar lesiant, profiad a chyflawniad yr holl ddysgwyr, gan sefydlu diwylliant sy'n gwerthfawrogi barn dysgwyr wrth hysbysu pob cam o ddysgu a phrofiad GCD.
6. Bod yn gyfrifol am ddatblygu polisïau ac arferion, ar y cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac sy'n datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr fel y bo'n briodol.

7. Galluogi datblygiad y pedwar diben ar gyfer dysgu drwy greu strwythurau a systemau sy'n cefnogi cynllunio ac sy'n pwysleisio disgyblaethau meysydd dysgu gwahanol mwn cyd-destun i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol iawn.
8. Datblygu a gweithredu systemau effeithiol i fonitro a gwerthuso effaith profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr i gyflwyno gwelliant parhaus.
9. Arddangos atebolrwydd o ran llesiant a deilliannau dysgwyr drwy weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau y gwerthfawrogi llesiant a chyflawniad yr holl ddysgwyr a bod hynny'n amlwg drwy'r GCD.
10. Datblygu strategaethau, strwythurau, polisïau a systemau cynhwysol, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, sy'n galluogi'r holl ddysgwyr i gael mynediad llawn i gyfleoedd i gyflawni a sicrhau y diwellir eu hanghenion dysgu unigol.
11. Hyrwyddo a sicrhau cydraddoldeb mewn llwybrau dysgu academiaidd, galwedigaethol a dysgu drwy brofiad.
12. Datblygu a llunio cofnod cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad y GCD i amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, aelodau'r Pwyllgor Rheoli a'r Awdurdod Lleol, gan sicrhau bod hyn yn cynnwys llesiant a chynnydd dysgwyr.
13. Rheoli dulliau cyfathrebu effeithiol a gweithredu argymhellion sy'n codi o adroddiadau, gan gynnwys canlyniadau hunan-werthuso ac arolygon allanol gan Estyn, er mwyn datblygu a chynnal gwelliant gwasanaeth.
14. Cydweithio gyda holl randdeiliaid y GCD i adeiladu hinsawdd gwasanaeth a diwylliant dysgu sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth cymuned y GCD, yn cynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Cyfrannu, fel y bo'n briodol, at yr addysgu yn y GCD.*

Cydweithio

15. Sefydlu hinsawdd o gefnogaeth ar y cyd a chydweithio effeithiol yn y GCD a'r tu hwnt i ddatblygu, gwella a rhannu addysgeg effeithiol.
16. Sefydlu diwylliant dysgu ar y cyd yn y GCD a gweithio gyda sefydliadau addysg eraill i adeiladu cymunedau dysgu effeithiol.
17. Hyrwyddo a hwyluso cydweithio effeithiol gyda chyflogwyr, busnesau, y llywodraeth a gweithwyr addysg proffesiynol eraill i annog ymagweddau arloesol a chefnogi a gwella arfer beunyddiol y sefydliad dysgu.
18. Sefydlu a meithrin partneriaethau yn y GCD ac ar draws Unedau Cyfeirio Disgyblion i rannu arfer gorau a chefnogi gwella'r ysgol er lles yr ysgol o ran cefnogaeth o safon a hyblyg i ddatblygu arfer proffesiynol.
19. Gweithio gyda'r Pwyllgor Rheoli fel ei fod yn gallu bodloni ei gyfrifoldebau wrth gefnogi dysgu ac addysgu effeithiol a chynnal gwelliant y gwasanaeth.
20. Croesawu llywodraethu cryf a chefnogi'r Pwyllgor Rheoli mewn modd gweithredol i ddeall ei rôl a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.
21. Meithrin perthnasoedd effeithiol ac agored gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i'w cynnwys yn llesiant, profiadau a chynnydd dysgwyr a sicrhau bod y GCD yn chwarae rôl ganolog yn y gymuned.
22. Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol, wrth ddarparu ar gyfer llesiant dysgwyr a'u teuluoedd.
23. Datblygu ymrwymiad gwasanaeth cyfan at welliant parhaus a datblygiad cynaliadwy drwy hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cydweithredol i'r holl staff,

gan nodi meysydd o gonsyrn yn gywir a chymryd camau gweithredu priodol i gefnogi a sicrhau perfformiad gwell.

Dysgu Proffesiynol

24. Creu amgylchedd lle caiff dysgu proffesiynol ei werthfawrogi, sy'n cael effaith ar addysgeg ac sy'n cefnogi twf proffesiynol ar draws y gymuned ddysgu yn y GCD a'r tu hwnt.
25. Sicrhau dysgu proffesiynol cynaliadwy â ffocws i'r holl staff, gan gynnwys twf proffesiynol o fewn arfer addysgeg, profiadau a deilliannau'r dysgwyr.
26. Datblygu diwylliant sy'n cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar bob lefel drwy ddatblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill, a chyfrannu at gyfleoedd sydd ar gael i adeiladu ar gapasiti arweinyddiaeth y GCD.
27. Sefydlu rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol i alluogi'r GCD i chwarae rôl weithredol yn y gymuned addysg ehangaf gan gyfrannu at hyfforddi athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr a datblygu ymchwil sy'n ymwneud ag arfer.

Arloesedd

28. Cydlynu arloesedd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod y GCD yn defnyddio ac yn elwa o ymagweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth at arloesedd sy'n gydnaws â'r weledigaeth tymor hir i Gymru.
29. Sefydlu rhaglen tymor hir o ymagweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth at arloesedd sy'n ceisio bodloni heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol i wella llesiant a deilliannau.
30. Creu diwylliant lle caiff arbenigedd, profiad ac arfer addysgeg eu datblygu'n barhaus a'i rannu ar draws ysgolion.
31. Datblygu diwylliant lle defnyddir arfer arloesol ar sail dystiolaeth ei ddefnyddio i werthuso effaith newidiadau yng nghymuned y GCD a'r tu hwnt.

Arweinyddiaeth

32. Gweithio gyda chymuned y GCD i gyflwyno cydlyniant, eglurder ac ymrwymiad a rennir i wireddu'r weledigaeth, y dysgwyr, y cydweithwyr a'r gymuned addysgeg ehangach yng Nghymru.
33. Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod cynllunio strategol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerthoedd, profiadau a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned ehangach.
34. Sicrhau, gyda chefnogaeth a mewnbwn y Pwyllgor Rheoli, fod y GCD yn cydymffurfio â'r holl bolisiau mewnol, lleol a chenedlaethol.
35. Creu diwylliant lle gall eraill dyfu'n broffesiynol.
36. Datblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill ar bob lefel i feithrin capasiti arweinyddiaeth y GCD ac ysbrydoli arweinwyr eraill y dyfodol.
37. Datblygu, grymuso a chynnal unigolion a thimau effeithiol drwy arweinyddiaeth a ddsberthir, gan annog arfer adlewyrchol.

38. Adeiladu rhwydweithiau effeithiol i rannu gwybodaeth, ymchwil ac arbenigedd ymarferol proffesiynol sy'n galluogi'r GCD ac ysgolion eraill i elwa drwy gydweithio ar y cyd.

Rheoli'r GCD

39. Cynhyrchu a gweithredu cynlluniau a pholisïau gwella clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn datblygu'r GCD a'i gyfleusterau, mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid perthnasol.

40. Gyda chefnogaeth y Pwyllgor Rheoli a'r Awdurdod Lleol, rheoli a threfnu amgylchedd y GCD yn effeithlon ac yn effeithio i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch.

41. Gwneud defnydd effeithiol o'r gefnogaeth a'r her a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, consortia rhanbarthol a chyrff perthnasol eraill.

42. Gweithio gyda'r Pwyllgor Rheoli a'r Awdurdod Lleol i reoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon i gyflawni blaenoriaethau a nodau addysgol y GCD.

43. Monitro, gwerthuso ac adolygu, ar y cyd â'r Pwyllgor Rheoli, yr amrywiaeth, yr ansawdd a'r defnydd o'r holl adnoddau sydd ar gael i wella ansawdd yr addysg i'r holl ddysgwyr ac i sicrhau gwerth am arian.

44. Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n sicrhau amgylchedd diogel, tawel a threfnus i'r holl ddysgwyr a staff a sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb, gan greu amodau dysgu llwyddiannus.

MANYLEB PERSON

M = Meini prawf cyrraedd y rhestr fer

Sylwer, gall y meini prawf er mwyn cyrraedd y rhestr fer hefyd gael eu profi yn y cam asesu

	HANFODOL	DYMUNOL
CYMHWYSTER	<p>Statws athro cymwys (M)</p> <p>Gradd (M)</p> <p>Cofrestriad cyfredol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (M)</p>	<p>Cymwysterau pellach a/neu astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ystod oedran. (M)</p> <p>CPCP i Ben\aeithiad newydd (M)</p>
GWYBODAETH A PHROFIAD	<p>Profiad sylweddol a diweddar fel uwch arweinydd PRU neu ddarpariaeth arbenigol.</p> <p>Llwyddiant amlwg mewn amrywiaeth o rolau strategol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arwain gwasanaeth mawr yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl • cymryd rôl arweiniol wrth weithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau a sefydliadau statudol ac anstatudol. • rheoli cyllidebau o fewn tîm Awdurdod Lleol neu ysgol (lefel Uwch Dîm Rheoli). <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o ddeddfwriaeth Addysg a chanllawiau statudol ar, ond heb fod yn gyfyngedig i, y Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY a fframweithiau Cymwysterau yn ogystal â diwallu anghenion dysgwyr gydag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.</p> <p>Gwybodaeth ragorol o arfer gorau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc (M) ac amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu</p>	<p>Profiad o reoli iechyd a diogelwch</p>

	HANFODOL	DYMUNOL
	<p>plant, datblygu sgiliau cymdeithasol plant a phobl ifanc a rheoli gwrthdaro ymysg disgyblion ac oedolion yn llwyddiannus.</p> <p>Profiad amlwg o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn gwella cyflawniad i'r holl grwpiau o ddisgyblion.</p> <p>Gwybodaeth ddiweddar a dealltwriaeth o'r hyn yw dysgu ac addysgu rhagorol a sut i'w gweithredu (M)</p> <p>Gwybodaeth am strategaethau a gweithdrefnau effeithiol sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol ac adolygu perfformiad.</p> <p>Profiad llwyddiannus o reoli newid.</p> <p>Profiad o feithrin perthnasoedd effeithiol gyda llywodraethwyr neu Bwyllgor Rheoli, rhieni a'r gymuned ehangach (M)</p>	
SGILIAU	<p>Y gallu i gyfleu a chyfathrebu gweledigaeth glir o ddarpariaeth addysg o safon i'r GCD yng noleuni diwygio'r cwricwlwm newydd (M)</p> <p>Gallu rheoli strategol gan gynnwys adnoddau a chynllunio staff, ariannol a chynllunio (M)</p> <p>Y gallu i arwain, rheoli a hybu staff a disgyblion i gyflawni safonau uchel mewn cyflenwi a deilliannau, tra'n cynnal lefelau uchel o lesiant (M)</p> <p>Profiad llwyddiannus o ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau o ddysgwyr bregus (M)</p> <p>Y gallu i feithrin rhwydwaith cryf o berthnasoedd a phartneriaethau cydweithredol gyda PRU eraill,</p>	<p>Lefel uchel o sgiliau personol mewn defnyddio a gweithredu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)</p>

	HANFODOL	DYMUNOL
	<p>proffesiynau addysgol a sefydliadau allanol priodol (M)</p> <p>Y gallu i gyfathrebu a datblygu cysylltiadau'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd (M)</p> <p>Galluoedd trefnu da a'r gallu i ddirprwyo</p>	
NODWEDDION PERSONOL	<p>Y gallu i fod yn wydn dan bwysau a bod yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig</p> <p>Ymroddiad i ddysgu proffesiynol parhaus ar gyfer yr hunan ac eraill</p> <p>Ymroddiad i hyrwyddo llesiant holl aelodau'r gymuned GCD (M)</p> <p>Y gallu i arddangos barn gadarn a chytbwys, pendantrwydd a hyblygrwydd</p> <p>Dilysrwydd, teyrngarwch a sensitifrwydd</p>	<p>Ymroddiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru</p> <p>Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol Gall fod angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant yn y y Gymraeg y bydd y Cyngor yn talu amdano ar gyfer staff</p>
GOFYNION ERAILL	<p>Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) ac ymgymerir â phroses sgrinio gynhwysfawr i'r holl ymgeiswyr. Bydd hyn yn cynnwys rhestr wirio eithrio gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).</p> <p>Deall ac arddangos parodrwydd i hyrwyddo polisi cyfle cyfartal y Cyngor.</p>	

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y swydd hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Dr Morwenna Wagstaff, Pennaeth Gwasanaeth: Cynhwysiant ar 01633 644032 neu e-bost: Morwenna.Wagstaff@Monmouthshire.gov.uk

Dyddiad Cau:

12pm ar ddydd Gwener, 13eg Medi 2024

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG
LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 		
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu llythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad. Yn gallu ysgrifennu'n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer neu boster yn Gymraeg yn ôl yr angen.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth

<p>yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. • Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. • Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. • Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	<p>gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.</p>
-------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> • Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. • Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth • Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. • Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darllenydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. • Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. • Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.